

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Rhagfyr 6ed, 2016

Presennol: Beryl Hughes Griffiths (Cadeirydd), Huw Antur, Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, Alwyn E Jones, Karl Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts, Ian Trow, Alan Jones Evans, (Cyngorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

Ymddiheuriadau: Heledd Jones, Alwyn Roberts, Rhodri Jones, Bethan Edwards

1657 Wrth groesawu pawb i'r cyfarfod, mynegodd y Cadeirydd gydymdeimlad gyda theulu Bryn Edwards, Y Fedw, a Thyddyn yr Onnen gynt. Bu Mr Edwards yn aelod gwerthfawr a ffyddlon o Gyngor Cymuned Llanuwchllyn a bydd yn chwith yn yr ardal ar ei ôl mewn sawl maes.

1658 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

1659 Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Huw Antur ym mater cais cynllunio NP5/71/466.

1660 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Tachwedd 1af 2016.

1661 **Materion y Clerc:**

- i. Derbyniwyd ymateb i lythyr y Cyngor i Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a oedd yn mynegi pryder am ddiffyg gwelyau i gleifion iechyd meddwl yng Ngogledd Cymru, a diffygion yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Nodwyd cynnwys llythyr y Bwrdd Iechyd.
- ii. Derbyniwyd ymateb Adran y Cefnffyrdd i fater llifogydd ar yr A494 yn dweud fod y mater wedi ei drosglwyddo i sylw Llywodraeth Cymru.
- iii. Derbyniodd George Watson Threfnydd y Triathlon y gwahoddiad i gyfarfod a'r Cyngor ym mis Chwefror.
- iv. Derbyniwyd ymateb Merched y Wawr a Sefydliad y Merched yn mynegi bodlonrwydd gyda chynnal y noson goffi yn nhymor yr Hydref.
- v. Derbyniwyd ymateb i'r gŵyn am wefan y beicwyr. Cytunwyd i fynegi siom y Cyngor fod y wefan yn bwriadu parhau i ddefnyddio *Hellfire Pass* am Fwlch y Groes. Cytunwyd i gyfeirio'r mater i sylw'r Comisiynydd Iaith.

1662 **Adroddiad y Cyngorydd Sir** - Dywedodd Alan Jones Evans fod peiriannydd yn fodlon gyda diogelwch ffos Deildre Uchaf, a chytunodd i osod polion yno i rybuddio gyrrwyr i gadw pellter o'r ffos; mae'r polion yn eu lle erbyn hyn. Adroddodd fod biniau'r fynwent wedi eu gwagio erbyn hyn ac fe fydd y swyddog perthnasol yn cysylltu eto gyda'r Cyngor. Adroddodd am y sefyllfa ddiweddaraf gyda'r ysgol ar safle Ysgol y Berwyn; bydd y mater yn derbyn sylw Cyngor Gwynedd yn ystod yr wythnos.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Beryl Hughes Griffiths

1663 Adroddiad o Bwyllgor Ardal Un Llais Cymru – Dywedodd Huw P Roberts iddynt gael cyfarfod buddiol iawn, gyda llawer o'r pwyslais ar symud cleifion yn ôl i'w cartrefi mewn da bryd a sicrhau fod cymorth yn ei le i'w cefnogi gartref. Adroddwyd y bu gwelliant mewn ymateb y gwasanaeth ambiwlans i achosion brys. Soniodd hefyd am y chwe ardal sy'n arbrofi gyda chodi treth ar dwristiaid sy'n aros dros nos.

Cafwyd adborth o hyfforddiant siomedig yn ddiweddar. Cytunwyd i wneud cwyn ac i beidio talu.

1664 Materion Eiddo'r Cyngor: Rhoddwyd ystyriaeth i gyllid gwerthiant Cwt yr Hers a chytunwyd i dalu am ddiffibriliwr a hyfforddiant ar ei ddefnydd. Cytunwyd i gynnig cydweithio gyda Phwyllgor y Neuadd gan ofyn i'r Pwyllgor wneud y trefniadau angenrheidiol a sicrhau'r yswiriant priodol.

1665 Materion ariannol - cytunwyd i dalu costau stampiau /papur y Clerc am y flwyddyn, a chostau swyddfa'r Clerc; cytunwyd i dalu anfoneb Dŵr Cymru am y toiledau. Cytunwyd hefyd i brynu coeden a goleuadau Nadolig i'w gosod wrth y gilfach goffa.

1666 Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned:

Cytunodd Alan Jones Evans gysylltu gyda'r swyddogion perthnasol am flerwch cerbydau ym Maesypany, ac am broblemau parcio yn y Pandy.

1667 Partneriaeth Penllyn: derbyniwyd adroddiad y Cynrychiolwyr a fynegodd fod pob ystafell yn yr Henblas wedi ei chymryd ar hyn o bryd. Mae cais wedi ei wneud o dan y cynllun CAT i drosglwyddo'r Henblas i Bartneriaeth Penllyn. Mae Arloesi Gwynedd Wledig ar hyn o bryd yn edrych ar sut mae gwella'r cytundeb presennol gyda Chyngor Gwynedd.

Cytunwyd i wneud cais penodol i Bartneriaeth Penllyn weithredu ar ran y Cyngor Cymuned ym mater halen mewn biniau.

1668 Gohebiaeth:

1. Parc Cenedlaethol Eryri:

- i. Cymeradwywyd cais NP5/71/466 i uwchraddio cynllun trydan dŵr presennol ar yr Afon Twrch.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei roi i gais NP5/71/1D sef adeiladu estyniad deulawr ym Mryn Caled.

2 Gwynedd:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am gost llenwi biniau halen. Cytunodd Alan Jones Evans geisio holi am y defnydd a wneir yn bresennol o finiau'r ardal.
- ii. Etholiadau 2017: Derbyniwyd
 - a. gwybodaeth am gost cynnal etholiadau 2017;

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Beryl Hughes Griffiths

- b. anogaeth i bobl sefyll etholiad;
 - c. gwybodaeth am gyfarfod parthed ffiniau yn Nolgellau ar 14/2/17
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth am newid yn nhrefniant ad-daliad costau cynnal llwybrau.

3 Un Llais / SLCC:

- i. Derbyniwyd adroddiad o gyfarfod i aelodau SLCC yng Nghaernarfon; roedd problemau gyda'r archwilwyr allanol yn gyffredin i Wynedd a Môn.
- ii. Gohiriwyd trafodaeth ar fodel o lythyr at Ymchwilydd Mewnol a datganiad am gostau Cynghorwyr tan y cyfarfod nesaf.

4. Eraill:

Mynegwyd siom nad oes gair o Gymraeg ar y llyfryn diweddaraf gan Bala Lake Railway Trust. Cytunwyd i anfon atynt, gan sôn hefyd mai Llyn Tegid yw enw'r llyn.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: Ionawr 3ydd 2017 am 8.00pm yn y Neuadd Bentref